



Cyngor Ysgolion Sul
Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH
Ffôn 01766 819120
Ebost aled@ysgolsul.com



I'w gyflwyno i sylw aelodau eich eglwys / YSGOL SUL

Apêl Sul Addysg, 2013

Annwyl gyfeillion,

Wrth i ni fel eglwysi ac Ysgolion Sul ail gychwyn gweithgarwch tymor yr Hydref pleser yw amgau gwybodaeth am weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul i'ch sylw. Erbyn hyn mae'r gyfres bresennol o werslyfrau, sef Cyfres Stori Duw yn tynnu tua'r terfyn, a gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i ddatblygu cyfres newydd o werslyfrau a fydd yn ymddangos fis Mehefin 2014. O ran maes llafur yr oedolion bydd maes llafur newydd ar gyfer Ionawr 2014, gan ddilyn 2 o lyfrau Elfed ap Nefydd Roberts, sef Dehongli'r Gwyrthiau a'r Bregeth. Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cyflwyno Medal Gee Er Anrhydedd gan Cyngor Ysgolion Sul eleni i Elfed fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i holl waith dros yr Ysgol Sul yng Nghymru dros cynifer o flynyddoedd. Os am wybod mwy am y gwerslyfrau mae cyflwyniad fideo ar gael ar wefan www.ysgolsul.com, a gellir lawrlwytho ffurflenni oddi ar y wefan hefyd ar gyfer archebu yr holl adnoddau. Mae ein Panel Adnoddau Digidol hefyd wedi bod yn brysur yn cyhoeddi DVD's ac adnoddau ar y we, ac yn ystod y flwyddyn bydd dros 100 o ffilmiau 5 munud newydd ar gael yn y Gymraeg yn cyflwyno storïau Beiblaidd. Hefyd mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i gwblhau ein llyfr emynau plant newydd, sef Canu Clod!, a fydd yn cynnwys dros 400 o ganeuon Cristnogol i blant, ac a fydd yn cael ei gyhoeddi at ddiwedd 2014. Cofiwch hefyd fy mod ar gael i gynghori ar waith yr ysgol Sul, ac yn arbennig ar yr adnoddau cyfoes sydd ar gael at eich gwasanaeth. Mae gwefan www.ysgolsul.com hefyd yn cynnwys llawer o adnoddau i'w lawrlwytho.

Gofynnwn hefyd am eich gweddïau chi dros y gwaith. Gwahoddwn chi fel eglwys i neulltuo rhan o wasanaeth yn ystod mis Medi/Hydref i roi sylw i 'Sul Addysg', - bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fel eglwys i ddiolch am gyfraniad addysg Gristnogol i fywydau ein hieuenctid, i ystyried ei werth heddiw, ac i weddio dros bawb sy'n cyflwyno a derbyn yr addysg hwn. Mae deunydd ar ein gwefan ar gyfer cynnal oedfa ar y Sul hwn.

Dyma'r Sul hefyd y mae Cyngor Ysgolion Sul yn gwneud ei apel ariannol blynyddol i'r eglwysi. Diolchwn am bob cyfraniad at y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf - mae'r rhoddion yma erbyn hyn yn gwbl allweddol i ddatblygiad ein gwaith. Apeliwn eleni eto am eich cefnogaeth haelionus, gan yrru unrhyw gyfraniadau ataf (yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul) i'r cyfeiriad uchod. Y mae'r her i genhadaeth ymhlith plant ac ieuenctid yn fwy nag erioed - diolch am bob cefnogaeth ymarferol a gweddigar, a chofiwch gysylltu os am unrhyw gyngor. Diolch am bob cefnogaeth at waith yr Ysgol Sul - cofiwch gysylltu os am fwy o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'r uchod.

Yn gywir,

D. Aled Davies

Aled Davies Cyfarwyddwr

Amgaeaf sic o £..... fel cyfraniad o Eglwys am 2013.

Enw: Ffôn:

Eglwys: Ebost:

Cyfeiriad:

..... Côt Post

Dychweler at: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Ymddiriedolwyr: Parchedigion Geraint Tudur, Peter Thomas, Dyfrig Lloyd, Mr. Rheinalt Thomas, Mr Gron Ellis a swyddogion cyfredol y Cyngor.

Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity: Rhif/No: 525766

Swyddfa Gofrestredig/Registered Office: Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.



ROOTS yn Gymraeg

Annwyl gyfeillion,

Erbyn hyn y mae elfennau o ddeunydd addoli a dysgu Roots for Churches ar gael yn Gymraeg, a hynny i'w lawrlwytho am ddim o'r wefan i bawb sy'n tanysgrifio i'r cylchgronnau. Ar gyfer bob Sul o'r flwyddyn y mae holl weddïau ar gyfer addoliad pob oed ac addoliad adran yr oedolion ar y wefan, ynghyd â thaflen waith wythnosol ar gyfer y plant ar gael yn Gymraeg.

Pleser yw cyflwyno'r sampler yma o ddeunydd i'ch sylw, sef deunydd ar gyfer un Sul arbennig ym Medi (er y gellir ei ddefnyddio ar unrhyw Sul wrth gwrs) a copi o'r deunydd Cymraeg ar gyfer yr wythnos oddi ar y wefan. Dyma gyfle felly i arbrofi gyda'r deunydd ar gyfer oedfa arbennig.

Gweler y ffurflen archebu ar gefn y pecyn sampler – i'w ddychwelyd i swyddfa ROOTS yn Worthing. O danysgrifio, fe fydd y deunydd hwn ar gael yn wythnosol ar eich cyfer trwy danysgrifio ar wefan www.rootsontheweb.com

Yn gywir,

D. Aled Davies

Aled Davies Cyfarwyddwr

Ymddiriedolwyr: Parchedigion Geraint Tudur, Peter Thomas, Dyfrig Lloyd, Mr. Rheinallt Thomas, Mr Gron Ellis a swyddogion cyfredol y Cyngor.
Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity: Rhif/No: 525766
Swyddfa Gofrestredig/Registered Office: Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

29 Medi 2013

Gweddïau Oedolion a phob oed

Galwad i addoli

Gadewch i ni addoli Duw,
sy'n clywed cri'r tlawd, y rhai addfwyn,
y gostyngedig,
ac yn eu digoni â phethau da.

Gweddi ymgynnull

Wrth i ni ymgynnull, Arglwydd Dduw,
myfyriwn ar ein rhesymau dros ddod i'r lle hwn.
Mae llawer ohonom yn ceisio cysur a'r
adnabyddiaeth o dy gariad a'th ras.
Mae llawer yn ceisio cael eu herio,
i dyfu mewn doethineb a dealltwriaeth.
Deffra ni, Arglwydd, i'r hyn mae angen i ni wybod;
cysura'r aflonydd, ac aflonydda'r cysurus.
Amen.

Gweddi dynesu

Dad, wrth i ni ddod ger dy fron,
rydym yn cynrychioli ystod eang.
Mae yna rai sydd â digon,
ac eraill sy'n ei chael yn anodd.
Ac eto nid yw'r un ohonom cyn dlotted ag eraill y
gallwn feddwl amdanynt.
Helpa ni, Dad, i ddod gyda'r agwedd gywir;
yn dy olwg di, mae dy holl blant yn gyfartal.
Addolwn di am dy ofal cariadus.
Amen.

Gweddi o gyffes

Arglwydd ein Duw, rhoddwr pob rhodd dda, mae
cymaint gennym ond ni fyddwn yn ei gydnabod.
Arglwydd maddau i ni ein hunanfodddhad.
Rydym yn byw ein bywydau mewn swigen o
sicrwydd gymharol.
Arglwydd maddau i ni ein hunanfodddhad.
Rydym yn byw heb wybod yn iawn beth yw
amddifadedd.
Arglwydd maddau i ni ein hunanfodddhad.
Rydym yn methu cymryd sylw o ddioddefaint ein
cyd fodau dynol.
Maddau i ni am anwybyddu'r tlawd a'r anghenus
a dyro i ni olwg newydd,

i dy weld ym mhob un.

Arglwydd maddau i ni ein hunanfodddhad.
Amen.

Gweddi o fawl

Am gysur a diogelwch ein cartrefi.
Mawl fo i Dduw!
Am argaeledd bwyd a dŵr.
Mawl fo i Dduw!
Am ddillad i'n cyrff, ac esgidiau i'n traed.
Mawl fo i Dduw!
Am ddarpariaeth ysgolion ac ysbytai.
Mawl fo i Dduw!
Am yr holl bethau hyn a gymrwn yn ganiataol,
a mwy.
Mawl fo i Dduw!
Amen.

Gweddïau o eiriolaeth

(yn adleisio'r weddi uchod; gellir defnyddio'r rhain
gyda'i gilydd)
Dros bawb sydd yn byw mewn pabell neu gwt;
Helpa ni i'w helpu, Dduw.
Dros bawb sy'n straffaglu i dyfu bwyd, ac yn cerdded
yn bell am fwyd;
Helpa ni i'w helpu, Dduw.
Dros bawb sy'n gwisgo hen ddillad pobl eraill ac yn
mynd yn droednoeth yn yr oerni.
Helpa ni i'w helpu, Dduw.
Dros bawb sydd mewn ysgolion neu ysbytai sydd
mewn trafferthion;
Helpa ni i'w helpu, Dduw.
Dros bawb sy'n cymryd dim yn ganiataol, gan nad
oes ganddynt ddim;
Helpa ni i'w helpu, Dduw.
Amen.

Gweddi bersonol

Arglwydd, rwyf fel pe bawn yn gwisgo ffrwyn ddall;
Rwy'n gweld o'm blaen y pethau sydd o bwys i mi.
Beth ddylwn wisgo? Pa waith ddylwn fynd trwyddo
heddiw?
Beth wna i fwyta? Beth wna i yfed?
Ble gaf i'r amser i wneud popeth?
Maddau i mi, Arglwydd, am fy nallineb i anghenion
pobl eraill,

yn enwedig y rhai sy'n llawer gwaeth eu byd na mi.
Helpa fi i gofio amdanynt, ac i wneud yr hyn a fedraf.
Amen.

Gweddi ar gyfer pob oed gyda'i gilydd

Gwahoddwch bawb i ymuno gyda'r geiriau mewn cromfachau.

Unwaith roedd yna ddyn cyfoethog (clinc! clinc!)
a oedd yn berchen ar bopeth oedd yn ei ddymuno.
(bling! bling!)
Ond ni welodd mo'r tlodion,
ar drothwy ei ddrws.
Helpa fi i fod yn deg,
i ofalu a rhannu.
Amen.

Gweddi i gloi

Ewch nawr gyda'ch llygaid wedi eu hagor o'r newydd,
llygaid sy'n gweld anghenion pobl eraill.
Ewch nawr gyda chlustiau sy'n clywed cri'r tlodion,
a dwylo sy'n barod i estyn allan i helpu.
Amen.

29 Medi 2013

Gweddiâu plant a ieuenctid

Gweddi'r troi

Gwahoddwch y plant i droi wrth ymateb yn y weddi hon.

Pan anghofiwn fod yn ddiolchgar am bopeth sydd gennym, helpa ni i droi yn ôl atat ti.
Pan dynnir ein sylw gan ein rhestr o bethau rydym eu heisiau, helpa ni i droi yn ôl atat ti.
Pan fyddwn yn amharod i rannu gydag eraill, helpa ni i droi yn ôl atat ti.
Pan ddewiswn anwybyddu anghenion yn ein cymdogaeth, helpa ni i droi yn ôl atat ti.
Pan fyddwn yn methu clywed dy her i newid, helpa ni i droi yn ôl atat ti.
Amen.

Gweddi'r symudiadau

Fel grŵp, penderfynwch ar ddau symudiad gwrthgyferbyniol ar gyfer 'cyfiawnder' a 'gras' i'w

defnyddio yn y weddi hon.

Duw cyfiawnder a gras,
cydnabyddwn nad ydym bob amser yn gweld anghenion eraill.
Down yn hunanol gyda phopeth sydd gennym.
Helpa ni i fod yn debycach i ti.

Duw cyfiawnder a gras,
sylweddolwn ein bod yn methu â dy drystio..
Gweithiwn yn ein nerth ein hunain, yn hytrach nag yn dy nerth di.
Helpa ni i fod yn debycach i ti.

Duw cyfiawnder a gras,
Dewiswn anwybyddu dy air,
gan ffafrio gadael y pethau anodd allan a'r alwad i newid.
Helpa ni i fod yn debycach i ti.
Amen.

Gweddi ymateb bersonol

Tybed, Arglwydd Iesu, sut oedd y bobl yn teimlo pan glywsant dy stori am Lasarus a'r dyn cyfoethog.
Oedden nhw'n deall dy rybudd?
A ddaethon nhw'n fwy agored i anghenion pobl eraill?

Tybed, Arglwydd Iesu, sut ydw i'n teimlo ar ôl clywed dy stori am Lasarus a'r dyn cyfoethog.
Ydw i'n deall dy rybudd?
Helpa fi i ddod yn fwy agored i anghenion pobl eraill.
Amen.

Gweddi ymgynnull

Boed i ni fod yn agored i her Gair Duw.
Boed i ni gael ein cyffwrdd gan gariad Gair Duw.
Boed i ni gael ein cymell i weithredu gan rym Gair Duw. Amen.

Gweddi i gloi

Arglwydd Iesu, buom yn gwrandao ar dy storïau a'th eiriau.
Anfon ni allan, wedi ein newid gan yr hyn a glywsom ac a ddysgasom, yn barod i dy wasanaethu di mewn ffyrdd newydd a chyffrous. Amen.

Darlleniad Beiblaidd

Luc 16.19-31

Iesu'n dysgu am ddyn cyfoethog sy'n anwybyddu dyn tlawd y gallai fod wedi ei helpu.


Pwy fyddw
ni'n eu
hanwybyddu?



Y tu allan i'w dŷ roedd dyn tlawd o'r enw Lasarus, oedd â briwiau dros ei gorff i gyd.

Gweithgaredd 1

Alli di weld chwe gwahaniaeth rhwng y gwleddoedd hyn?



Gweithgaredd 2

Defnyddia'r côd i ddarganfod y neges.

© < S v S „ v ^a " f n

CÔD: S=w, " =e, ©=d, ^a=h,
f=l, „=f, <=u, n=p, v=y.

Gweddi

Dduw cariadus, helpa ni i sylwi ar anghenion pobl eraill, ac i'w helpu ble bynnag y gallwn.

Amen.

Byw mewn ffydd

Yr wythnos hon, ceisia siarad â rhywun yn yr ysgol y byddi fel arfer yn ei anwybyddu.

Yn ychwanegol

Aladdin Gwylia sut mae pobl yn ymateb i Aladdin pan mae'n dlawd a phan mae'n dywysog.

BETH YW BYWYD?



Mae'r cwrs Alffa yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau allweddol sy'n rhan ganolog o'r ffydd Gristnogol, sydd wedi ei lunio ar gyfer rhai nad ydyn nhw'n mynychu addoldy, y rhai sy'n ceisio canfod rhagor am Gristnogaeth, a'r rhai sydd wedi dechrau arddel ffydd yn Iesu Grist yn ddiweddar. Mae yn llawn cwestiynau am Gristnogaeth, wedi canfod Duw fel eu Tad, Iesu Grist fel eu Gwaredwr a'u Harglwydd, a'r Ysbryd Glân fel yr un sy'n dod i fyw o'u mewn.



Cwestiynau Bywyd

Pris: £6.99, 200tt, cm

Canllawiau i'r bywyd Cristnogol.

Llyfr i gyd-fynd â chwrs Alffa.



Llawlyfr Alffa

Pris: £1.50.

Llawlyfr i roi i bawb sy'n dilyn y Cwrs Alffa.



Llawlyfr Hyfforddi

Pris: £2.00.

Llawlyfr i arweinwyr a chynorthwywyr y Cwrs Alffa.



Pam Iesu?

Pris: 50c.

Cyflwyniad byr i'r ffydd Gristnogol i ennyn diddordeb ar gyfer y Cwrs Alffa.

Gofala Di

£4.99

Llawlyfr Bugeilio Cristnogol

Dyma lyfr sy'n trafod rhywbeth sydd wrth galon bywyd pob eglwys, sef bugeilio Cristnogol. Gwna Dewi Myrddin Hughes gymwynas fawr â ni trwy fwrw goleuni ar amrywiol agweddau o'r gwaith, a hynny mewn dull cynnil sy'n seiliedig ar y Beibl a'i brofiad maith ei hun. Gellir defnyddio'r llyfryn gan unigolion a grwpiau, a'r gobaith yw y bydd yn ein harwain i ymroi o ddifrif i'r gwaith, a thrwy hynny yn adeiladu a bywiogi eglwys fel cymunedau ffydd ledled y wlad.




Cwestiwn

£8

Pwy wyf i? Beth yw bywyd? Pam bod cymaint o ddioddefaint yn y byd? Os yw Duw'n bodoli, sut un yw ef?

Mae Cwestiwn yn galluogi pobl i archwilio cwestiynau am Dduw sy'n cael ei gofyn yn aml yn gynnar ar daith ffydd. Mae pob cyflwyniad ar y DVD wedi ei gynllunio i ennyn ymdeimlad o gwestiynu a dyheu, gan ddarparu cyfeiriad i'r amser sgwrsio sy'n dilyn.

Yn dilyn pob un o'r chwe chyflwyniad, mae'r DVD yn cynnwys cwestiynau y gall y grŵp weithio trwyddynt yn eu hamser. Maent yn gyfle i bobl ymhel â'r testunau, a byddant yn helpu rhoi cyfeiriad i'r trafodaethau.



Coleg y Werin

£12.99

Hanes yr Ysgol Sul yng Nghymru rhwng 1780-1851

Bu dylanwad yr Ysgol Sul yn hynod bwysig o ran crefydd, cymdeithas a diwylliant yng Nghymru. Dyma gyfrol sy'n olrhain effeithiau'r ysgolion ar addysg, crefydd, cymdeithas a'r iaith Gymraeg, ynghyd â'u gwreiddiau a'r meddylfryd y tu ôl i'w sefydlu.



GWERSLYFRAU YSGOL SUL

Cyfes Stori Duw

Yn y gyfres ceir 50 o wersi sy'n mynd â ni ar daith gronolegol trwy'r Beibl, gan ddatguddio 'stori fawr Duw' ar gyfer ei fydd. Ceir adnoddau i bob oed o oed meithrin hyd at ddosbarth yr oedolion.

Mae'r gyfres yn cynnwys:

Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 5

Testun: Sarah Morris, Pris: £14.99, cm.

50 o wersi cyflawn ar gyfer plant dan 5 oed

Gwerslyfr Stori Duw i blant dan 11 oed

Testun: Sarah Morris a Catrin Roberts, Pris: £14.99, cm.

50 o wersi cyflawn ar gyfer plant rhwng 6 a 11 oed

Gwerslyfr Stori Duw i leuenctid 11-15 oed

Testun: Rhun Murphy, Pris: £14.99, cm.

50 o sesiynau Beiblaidd i leuenctid rhwng 11 a 15 oed

Llyfr Crefftiau Stori Duw i blant dan 5 oed

Testun: John Pritchard, Pris: £18.99, cm.

Casgliad o dros 200 o broiectau crefft Beiblaidd i blant dan 5



Llyfr Crefftiau Stori Duw i blant dan 11 oed

Testun: Dafydd Timothy, Pris: £18.99, cm.

Casgliad o dros 200 o broiectau crefft Beiblaidd i blant dan 11

Llyfr Lliwio Stori Duw

Testun: Angharad Llwyd-Jones, Pris: £14.99, cm.

Casgliad o 200 llun i gyd-fynd â'r gwerslyfrau i blant

Oedfaon Teulu Stori Duw

Testun: Gwyn Rhydderch (gol.), Pris: £9.99, cm.

Casgliad o 20 oedfa deuluol yn cyflwyno'r Beibl

CD Cyfes Stori Duw

Pris: £19.99. Y 7 gwerslyfr uchod ar ddisg ar ffurf PDF



Cyfes Ffydd ar Waith

Cyfes Ffydd ar Waith Llyfr 1 – Cymorth Cristnogol Pris: £7.99

Cyfes Ffydd ar Waith Llyfr 2 – hanes chwe elusen Gristnogol Pris: £9.99

Dyma gyfres o werslyfrau sydd yn edrych ar hanes a gwaith nifer o elusennau Cristnogol, a sut y gallwn ni eu cefnogi yn eu gwaith.



Cyfes Golau ar y Gair

Gideon – yn ymladd dros Dduw

Teulu Newydd Ruth

Moses – Y Dywysoges a'r Baban

Pasg – Iesu'r Brenin

Samuel – Duw yn siarad â Samuel

Pentecost – Newyddion Da lawn

Daniel – yn ffau'r Llewod

Damhegion Iesu – Cyfrinachau'r Deyrnas

Dechrau'r byd: Hanes y Creu

Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys

Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da


Jeremeia: proffwyd mewn twll

Pentecost: yr Ysbryd Glân ar waith

Dafydd: bardd a brenin (Salmu)

Iesu'n dangos ei allu

Joseff yn yr Aiff



Y Nadolig

Porthi'r Pum Mil

Moses: Gadael yr Aiff

Abraham: ffrind Duw

Iesu'r Meddyg

Elias: negesydd Duw

Jona: Proffwyd Anfodlon

Y Pasg: y daith fawr

Moses: Y Deg Gorchymyn

Solomon: y brenin doeth

Josua: yr arweinydd newydd

Y Pasg: "Gorffennwyd"

Y Nadolig: Rhodd Duw

Iesu: Ffrind mewn angen

Y Pasg: trwy lygaid Pedr

Y Beibl: Stori Fawr Duw

Dafydd: bugail a brenin

Nadolig: Goleuni'r Byd

Iesu'n croesawu pawb

Paul: yn cyfarfod Iesu

Iesu: y Ffrind Gorau

Nadolig: O'r nef y daeth

Iesu'r athro da

Esther: y frenhines ddewr

Awdur: Sarah Morris, Pris £6.99, 44tt, cm

Cyrolau o wersi ysgol Sul i blant 4-14 oed, yn dilyn stori/thema arbennig.

Golau a'r y Gair (CD-ROM)

Testun: Sarah Morris, Pris: £19.99

Cyrolau o wersi ysgol Sul i blant 4-14 oed, yn dilyn stori/thema arbennig

Cyfes Ar y Ffordd

Dosbarth Cyntaf

Pris £8.99, 96tt, cm

15 o wersi Beiblaidd ar gyfer yr ysgol Sul i blant dan 5 oed.

Cychwyn gyda'r Beibl: Hen Destament

Pris £8.99, 96tt, cm

15 o wersi Beiblaidd ar gyfer yr ysgol Sul i blant dan 5 oed.

Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 1

Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 2

Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 3

Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 4

Ar y Ffordd 3-9 – Llyfr 5

Pris £8.99, 96tt, cm. Gwersi Beiblaidd ysgol Sul i blant 3-9 oed.

Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 1

Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 2

Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 3

Ar y Ffordd 9-11 – Llyfr 4

Pris £8.99, 96tt, cm.

Gwersi Beiblaidd ysgol Sul i blant 9-11 oed.

Gemau'r Gair

Testun: Evelyn Roberts,

Pris: £8.99, 96tt, cm


Casgliad o gemau Beiblaidd yn seiliedig ar storïau o'r Beibl.

Llyfrau rhodd i ieuenctid

Y Beibl Fesul Stori

£9.99


Beibl lliw newydd ar gyfer ieuenctid 11–18 oed. Y Beibl: dyn yn lladd ei frawd; pobl yn ymladd am eu rhyddid; dyn da yn cael ei erlid a'i ladd; pobl yn cwffio dros heddwch a chyfiawnder; yr amhosibl yn digwydd dro ar ôl tro! Mae bywyd yn ei gyfanrwydd yma! Darllenwch drosoch eich hunain. Y stori fwyaf erioed.



Y Beibl Fesul Llyfr

£11.99

Cyflwyniad clir a chryno i bob llyfr yn y Beibl, wedi'i baratoi'n arbennig ar gyfer ieuenctid ac oedolion ifanc. Mae'n rhestru awdur, dyddiad, math o lyfr, prif gymeriadau, prif themâu a darllen pellach.



Llyfrau rhodd plant hŷn

Her Fawr y Beibl

£9.99

Rhaglen newydd, gyffrous ar gyfer plant 7–12 oed yn cynnwys casgliad o 100 o storïau Beiblaidd (50 yr un o'r Hen Destament a'r Testament Newydd) gyda darlenniadau a chanllawiau, yn cynnig pynciau trafod, testunau gweddi a gweithgareddau gwaith crefft yn deillio o'r straeon. Cyfrol ar gyfer yr aelwyd, yr ysgol a'r Ysgol Sul.



Taith Trwy'r Beibl

£6.99

Cyfrol maint A4 sy'n ein harwain trwy'r Beibl ar ffurf taith gan ddilyn hanes cenedl Israel o'r creu hyd at yr Eglwys Fore.




Llyfrau i weithwyr ieuenctid

Storïau Duw – Llyfr 1 a 2

£8.99 yr un

Dau lyfr yn llawn sesiynau dysgu parod i'w defnyddio am y Beibl, ar gyfer ieuenctid 11–16 oed, ynghyd â gêmâu a dramâu, a nifer o syniadau ychwanegol am bethau i'w gwneud gyda'ch grŵp ieuenctid. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru.



Gwerslyfr Stori Duw i Ieuenctid

£14.99

Gwerslyfr beiblaidd yn cynnwys 50 o wersi, yn cyflwyno cynnwys y Beibl yn ei drefn gronolegol, o Genesis i Ddatguddiad. Addas ar gyfer ieuenctid 11–15 oed.



Emaus i'r Ifanc

£19.99

Cwrs rhyngweithiol, pedair sesiwn ar ddeg o hyd yn darparu deunyddiau ar gyfer arweinyddion a grwpiau pobl ifanc 11–16 oed, i'w cynorthwyo i archwilio egwyddorion sylfaenol Cristnogaeth, i gymhwyso egwyddorion eu ffydd at eu bywydau bob dydd ac i'w harfogi fel addolwyr a disgyblion.



Torri Syched (DVD)

£6.99

Tair ffilm fer am bobl bywyd a ffydd. Yn addas ar gyfer ieuenctid hŷn (15+) ac oedolion. Llyfryn trafod i gyd-fynd â'r ffilmau yn gynwysiedig.



ADNODDAU BUGEILIOL NEWYDD *gan Cyhoeddiadau'r Gair*



Gair o Gysur mewn Gofid a Galar Gair o Gysur mewn Gofid a Gwaeledd Wele, cawsom y Meseia



Dyma dri llyfryn 20 tud, lliw llawn. Dau sy'n addas ar gyfer eu cyflwyno i rywrai ar adeg profedigaeth neu ar achlysur afiechyd, llesgedd neu bryder ac un sy'n addas i gyflwyno i bobl wrth ddathlu'r Nadolig.

Maent yn cynnig detholiad o adnoddau o'r Beibl, gweddïau, myfyrdodau, geiriau emynau a cherddi, a darnau ysbrydoledig megis Ôl Traed, Desiderata ayyb.

Maent yn addas ar gyfer gweinidogion a lleugwyr, er mwyn eu cyflwyno ar adeg o ymweld bugeiliol ar ran yr eglwys.

Maent wedi eu prasio yn rhesymol iawn (llai na hanner pris cerdyn arferol) am 50c yr un, neu gellir eu prynu mewn pecyn arbennig ar gyfer eglwysi, sy'n cynnwys 50 copi yr un o'r ddau lyfr cyntaf am y pris arbennig o £30 neu 100 copi o'r llyfryn Nadolig am £30.

Mae hyn yn 30c y copi am

lyfryn lliwgar 20 tudalen.

Llyfrynnau lliwgar 20 tudalen

Pris pecyn Eglwys, sef 100 llyfryn, yw £30
(gan ychwanegu £5 os am eu derbyn trwy'r post).

Sieciau yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul.
Gellir eu casglu o'r swyddfa yn Chwilog am £30.



I archebu, cysyllter â:

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli,
Gwynedd LL53 6SH
01766 819120
aled@ysgolsul.com

Amgaeaf sic o £..... (£30 y pecyn+£5 cludiant am bob pecyn) yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am:

☐ nifer pecyn Eglwys 'Yn Meddwl Amdanoch' ☐ nifer pecyn Eglwys 'Wele, cawsom y Meseia'

Enw a chyfeiriad dosbarthu

Côd Post Ffôn

CARDIAU NADOLIG CRISTNOGOL CYMRAEG

12 cynllun gwahanol. Cardiau maint mawr (A6). 8 mewn pecyn.




Nifer



Nifer




Nifer



Nifer



Nifer



Nifer



Nifer



Nifer



Nifer



Nifer



Nifer



Nifer

Mae yna amrywiaeth o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael a werthir er budd gwaith yr ysgol Sul yng Nghymru, gyda chyfarfriad ac adnod ar bob cerdyn, ynghyd â llun lliw pwrpasol.

Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwyh felly i gefnogi Cyngor Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi yn talu £1.50 y pecyn amdanynt ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu!

I archebu, cysyllter â (gan nodi nifer y pecynnau rydych am eu derbyn):

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

01766 819120 aled@ysgolsul.com
Rhoir amrywiaeth o gynlluniau ymhob bocs – tra pery stoc.

Amgaeaf sic o £..... yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am o becynnau am £1.50 yr un (+£2.50 cludiant).


Enw a chyfeiriad dosbarthu

Côd Post Ffôn

Gwyddoniadur y Beibl

£20


Llyfr chwaethus newydd sy'n rhoi sylw i bob agwedd o'r Beibl; addas ar gyfer pawb sy'n astudio'r Beibl. 300 o luniau lliw newydd, mapiau, llinellau amser, darluniau a diagramau sy'n cyflwyno prif themau, digwyddiadau, cymeriadau a hanesion y Beibl. Cyfeiriadur a mynegai llawn, ynghyd â chredoau allweddol.



Mil a Mwy o Berlau

£11.99

Cyrol gynhwysfawr o ddywediadau yn cwmpasu 2,000 o flynyddoedd – o'r Beibl hyd at y cyfnod presennol. Ceir yma anerchiadau ac areithiau, dywediadau bachog o bob rhan o'r byd, gan ddiwinyddion a diwygwyr, emynwyr ac awduron, gan gynnwys detholiad da o Gymru.



Mil a Mwy o Emynau

£17.99


Casgliad cynhwysfawr o 1,000 o emynau nad ydynt yn Caneuon Ffydd, gan gynnwys hen emynau a rhai a gyfansoddwyd yn ddiweddar at achlysuron arbennig.



Defosiwn Gŵyl y Cynhaeaf



£8.99

Casgliad cynhwysfawr o ddeunydd defosiynol, yn cynnwys darlenniadau, gweddïau, cerddi a myfyrdodau ar gyfer tymor gŵyl diolchgarwch.



Hefyd ar y ffordd yn 2014:


Defosiwn Gŵyl y Pasg Defosiwn Gŵyl y Nadolig



Beibl Odl y Plant

£7.99

Dyma gyfrol o gerddi gwreiddiol gan Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones yn seiliedig ar storiâu Beibl Bach i Blant. Ceir yma 64 o gerddi, pob un yn cyfateb i'r storiâu sydd yn y Beibl poblogaidd hwn. Mae'r cerddi'n hawdd i'w deall ac yn hwyl i'w hadrodd gyda lluniau hyfryd yn ychwanegu lliw ac ystyr ac yn dod â'r cyfan yn fyw.



Waw, am Fyd

£3.99


Llyfr bwrdd i'r plant lleiaf yn darlunio rhyfeddod ac amrywiaeth byd Duw, gyda darluniau o anifeiliaid, pysgod ac adar, ynghyd â drych yn y clawr cefn, er mwyn ein dangos NI.



101 o Weithgareddau'r Nadolig

£3.99

Llyfr lliwgar i blant gyda handlen i'w gario, yn cynnwys 101 o bosau a gweithgareddau Nadolig.



Llyfr Ffris Stori'r Nadolig

£3.99

Llyfr bwrdd consertina, gyda chymeriadau stori'r Nadolig yn disgyn allan ohono er mwyn creu golygfa 3D.



Beth Wnawn Ni'r Nadolig Hwn?

Llyfr 1 a 2

£11.99 a £9.99

Dau gasgliad cynhwysfawr o ddeunydd Cristnogol Nadoligaidd, yn cynnwys dramâu a sgetsys, carolau, cerddi, myfyrdodau a gweddïau.

www.ysgolsul.com

adnoddau, catlog llawn, syniadau a llawer mwy...